# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 3 Hydref 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 13:30

Gofynnwyd Cwestiynau 1-2, 4 - 9 a 11 - 13.  Ni ofynnwyd Cwestiwn 3. Trosglwyddwyd Cwestiwn 10 i'w ateb yn ysgrifenedig.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Dechreuodd yr eitem am 14:16

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Trosglwyddwyd Cwestiwn 2 i'w ateb yn ysgrifenedig.

**Pwynt o Drefn**
Cododd Mick Antoniw bwynt o drefn yn ymwneud ag Eitem 6 NDM 5054 ar agenda heddiw ac a oedd y cynnig yn ymyrryd â'r broses led-farnwrol. Gofynnodd am benderfyniad ynghylch pam nad oedd y Llywydd wedi defnyddio ei disgresiwn o dan baragraff 3.12 o'r Egwyddorion a'r Arferion ar gyfer Cyflwyno a Gosod busnes y Cynulliad i wrthod derbyn cynnig os yw'n bwrw amheuaeth ar gywirdeb y modd y cynhelir busnes y Cynulliad.

### 3. Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), o dan Reol Sefydlog 26.44

Dechreuodd yr eitem am 15:02

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, cafodd y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Cafodd y gwelliannau eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodwyd yn ôl y grwpiau a ganlyn:

**1. Cyfieithu Cofnodion o Drafodion y Cynulliad**
1, 5

**2. Cyhoeddi Cofnodion o Drafodion y Cynulliad**
9

**3.Penodi Swyddog Cyfrifol**
6

**4. Ystyr y Ddarpariaeth**
2

**5. Darpariaethau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Cynllun**
10, 11, 12

**6.Gwasanaethau a ddarperir o dan y Cynllun**
7, 8

**7. Ymgynghori ar y Cynllun**

3, 4

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 1 | 36 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 6 | 0 | 48 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 42 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 32 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 10 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 12:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 11 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 12.**

**Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

### 4. Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), o dan Reol Sefydlog 26.47

Dechreuodd yr eitem am 16:01

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Comisiynydd gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.  Os cytunir ar y cynnig:

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 5. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16:11

**NDM5053 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Cysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2012.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 17:09

**NDM5054 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r pryderon a fynegwyd ledled Cymru ynghylch cynigion byrddau iechyd lleol ar gyfer dyfodol gofal newyddenedigol; ac

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau y bydd gwasanaethau gofal newyddenedigol lefel 3 yn dal ar gael yng Ngogledd Cymru;

b) sicrhau na fydd dim o'r gwasanaethau gofal newyddenedigol presennol yng Ngorllewin Cymru yn cael eu hisraddio; a

c) sicrhau bod capasiti gwasanaethau gofal newyddenedigol lefel 3 yn Ne Cymru yn gallu ateb y gofyn.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu is-bwynt 2b a rhoi yn ei le:

sicrhau bod strategaeth ar waith er mwyn gweld gwasanaethau newyddenedigol yn gwella yng Ngorllewin Cymru

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5054 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r pryderon a fynegwyd ledled Cymru ynghylch cynigion byrddau iechyd lleol ar gyfer dyfodol gofal newyddenedigol; ac

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau y bydd gwasanaethau gofal newyddenedigol lefel 3 yn dal ar gael yng Ngogledd Cymru;

b) sicrhau na fydd dim o'r gwasanaethau gofal newyddenedigol presennol yng Ngorllewin Cymru yn cael eu hisraddio; a

c) sicrhau bod capasiti gwasanaethau gofal newyddenedigol lefel 3 yn Ne Cymru yn gallu ateb y gofyn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 0 | 27 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y cyfnod pleidleisio am 18:05

**7. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18:06

**NDM5052 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Cefnogi buddsoddiad yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod

Cefnogi cynlluniau Bwrdd Iechyd Lleol Powys i fuddsoddi yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:25

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 9 Hydref 2012**